**Rhaglen Ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Y Rhaglen) 2015/16**

## Adroddiad Cryno

Mae dwy brif ddiben i'r adroddiad hwn am Raglen Ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Y Rhaglen) 2015/16. Mae'n crynhoi'r allbynnau allweddol a phwyntiau dysgu allweddol o'r rhaglen ac mae'n rhoi manylion rhai o'r mathau o waith a phrosiect enghreifftiol yr ymgymerir â hwy yn ystod wythfed flynedd y Rhaglen.

Mae'r crynodeb yn cyd-fynd â'r *Adroddiad Allbynnau Diwedd Blwyddyn Rhaglen Ariannu Gwella Hawliau Tramwy 2015/16,* a'r *Adroddiad 2015-2016 Astudiaethau Achos Rhaglen Ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.*

## Cefndir

Er 2008, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi hwb mawr i wella'r Hawliau Tramwy ar draws Cymru trwy'r Rhaglen. Mae CNC yn gweinyddu'r ariannu hwn ar ran LlC.

Yn 2015/16 dyrannwyd £1 miliwn i'r rhaglen gan ddod â chyfanswm y dyraniad er 2008/09 i £10.9 miliwn

## Cyflawniadau allweddol yr ariannu yn 2015/16




a) Gwelliannau
marferol ar lawr gwlad

### a) Gwelliannau ymarferol ar lawr gwlad

Gwariwyd **£762,183** ar draws Cymru i wella mynediad cyfredol. Cyfrannodd y gwaith ymarferol hwn at gynyddu cyfran y rhwydwaith sy'n hawdd ei defnyddio. Ymhlith y camau oedd gwella dodrefn llwybrau megis pontydd a gatiau; gosod meinciau ar olygfannau allweddol; a gwelliannau i arwyneb, er enghraifft gwella draenio'r llwybr.

Llun: Chwarel Ty Llwyd, Llyn Efyrnwy, Cyngor Sir Powys

**Ymhlith y camau gweithredu i wella mynediad llinellol mae:**

r troed i lwybr
Llun: Llun Llyfrgell LlGC

nwys pont trawst
istref Sirol Blaenau Gwent

ar fynediad i
nyd â llwybrau o
eistref Sirol Blaenau Gwent

'n cau eu hunain
Llun: Cyngor Dinas Caerdydd

erddwyr cŵn sy'n
Llun: Llun Llyfrgell LlGC

r sy'n caniatáu i
nyddio llwybrau
Llun: Llun Llyfrgell LlGC



**b) Gwelliannau y bydd mwy nag un grŵp yn cael budd ohonynt**

## b) Gwelliannau y bydd mwy nag un grŵp yn cael budd ohonynt - gan gynnwys cerddwyr, beicwyr a marchogwyr:

Parhaodd y duedd i wella hawliau tramwy ar gyfer mwy nag un math o ddefnyddiwr. Roedd prosiectau a oedd o "fudd cyffredinol i bob defnyddiwr" a phrosiectau a oedd yn "aml-fudd" gyda'i gilydd i gyfrif am **£514,623** o gyfanswm gwerth prosiectau.

Llun: Pontnewydd, Cwmbran, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen





Yr un grŵp defnyddiwr mwyaf sy'n debyg o gael budd o gamau gweithredu aml-fudd yw cerddwyr;

Llun: Neges drydar 'Love 2 Walk' Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



Roedd yn rhaid i bob Awdurdod Lleol gynnwys o leiaf 1 cam gweithredu a oedd o fudd i grwpiau 'Defnydd Isel' a ddiffinnir fel "grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad";

Llun: Llun Llyfrgell LlGC




Roedd grwpiau defnydd isel yn cael eu cynrychioli hefyd mewn camau gweithredu eraill nad ydynt wedi'u hanelu'n benodol at grwpiau defnydd isel.

Llun: Taflen Teithiau Cerdded Hyrwyddo Darganfod Sir Gâr




c) Gwelliannau i wneud mynediad i'r awyr agored yn haws i bobl sydd yn ei chael yn anodd

### c) Gwelliannau i wneud mynediad awyr agored yn haws i bobl sy'n ei chael hi'n anodd

Er nad oedd gofyniad i gyflenwi prosiect penodol ar gyfer 'grwpiau defnydd isel' roedd yr awdurdodau mynediad yn cydymffurfio ag egwyddorion y mynediad lleiaf rhwystrol. Roedd 16 o brosiectau penodol wedi'u hanelu at wneud mynediad yn haws i grwpiau sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad, ac roedd yr ariannu ar gyfer y prosiect penodol hwn yn gwneud cyfanswm o **£90,217.**

Llun: Parc Gwledig Loggerheads, Cyngor Sir Dinbych.

**Ymhlith y gwaith a wnaed i hyrwyddo mynediad gwell i'r rheini sy'n gwneud defnydd anghymesur o isel o gefn gwlad oedd:**



Ar draws Cymru gosodwyd mwy o gatiau na chamfeydd gan hyrwyddo'r mynediad lleiaf rhwystrol ar gyfer cynifer o bobl â phosibl.

Llun: Longfellow Road, Cyngor Sir Fynwy



Cynllunio a chaniatáu gwaith ar gyfer llwybr aml-ddefnyddiwr (cerddwyr, cadair olwyn, a beicwyr) yn Nhŷ Moelwyn, Porthmadog

Llun: Llun Llyfrgell LlGC




Darparu arwyddion gweledol a marcwyr hyder, meinciau a seddi a byrddau gwybodaeth ar safle'r llwybr.

Llun:Llwybr Caniataol Abercych, Cyngor Sir Penfro



Darpariaeth maes parcio gyda llwybr arwyneb wedi selio, mannau pasio, meinciau a seddi yn darparu llwybr â golygfa uwchlaw dyfrffordd y ddau gleddau.

Llun: Llwybr Cylchol Pembroke Ferry, Cyngor Sir Penfro




d) Statws llwybrau a seilwaith wedi'i wella

## d) Statws llwybrau a seilwaith wedi'i wella:

Mae **907km** o'r rhwydwaith hawliau tramwy bellach yn haws i'w defnyddio yn dilyn gwelliannau y mae'r Rhaglen a ffynonellau ariannu eraill wedi cyfrannu atynt yn 2015-16

Roedd mwyafrif y llwybrau a wellwyd yn 2015-2016 yn naill ai'n llwybrau troed neu lwybrau ceffylau ond fe welodd bob math o lwybrau beth gwelliant.

Llun: Agoriad swyddogol Pont Govilon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont yr Ogwr

**Hyd y Llwybr y mae'r Rhaglen wedi helpu i'w wneud yn 'Hawdd ei Ddefnyddio' yn ystod 2015-2016 (gan gynnwys cyfraniadau gan ffynonellau ariannu eraill):**



634km o Lwybr Troed

Llun: Longfellow Road, Cyngor Sir Fynwy



28km o Lwybr Beicio

Llun: Llun Llyfrgell LlGC



181km o Lwybr Ceffylau

Llun: Llun Llyfrgell LlGC



36km o Gilffyrdd Cyfyngedig

Llun: Llun Llyfrgell LlGC




28km o Gilffordd yn Agored i Bob Traffig

Llun: Taflen Treadlightly, Cyngor Sir Ddinbych

## Prosiect Enghreifftiol: Gwybodaeth a Hyrwyddo


### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Unwaith eto bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gysylltiedig â Gŵyl Love2Walk 2015 a drefnwyd mewn partneriaeth gyda Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rhoddodd y tîm Hawliau Tramwy ariannu uniongyrchol hefyd o'r Rhaglen ariannu CGHT i hyrwyddo'r Ŵyl. O ganlyniad i hynny dychwelodd y digwyddiad i'r fformat 9 diwrnod. Arweiniodd hyn at fwy na 25 o deithiau cerdded yn cael eu cynnal a mwy na 280 o bobl yn cymryd rhan yn y digwyddiad.




### Porthcawl Past Walk




New for this year's Love2Walk

Join the volunteers from Porthcawl Museum on a guided tour of Porthcawl and discover its rich Historical Past.

**Saturday 2nd November**

**11.00am**

Starting at: The Old Police Station, Porthcawl Museum, John Street, Porthcawl CF36 3DT

**All children under 16 MUST be accompanied by an adult.
☎: 01656 815078 ✉: love2walk@bridgend.gov.uk 🖰:www.love2walk.co.uk



| 8 | BLACKMILL NORDIC WALKERS | MON 22nd JUNE |
|---|---|---|

Start Time 11.00am — Distance 3 miles
Start Point Blackmill Sheep Sales
End 12.00 noon — Grade Easy

Nordic walking is based on using specially designed walking poles in a way that harnesses the power of the upper body in order to propel you forward as you walk. Now it's a recognised way to turn a walk into whole body exercise that can be done by anybody anywhere. Poles provided.

P CAR PARK

## Prosiect Enghreifftiol: Mynediad i Bawb

### Cyngor Sir Powys - Priory Groves, Estyniad i Lwybr Troed

Gallodd Gwasanaeth Cefn Gwlad ac Awyr Agored Cyngor Sir Powys ymestyn y llwybrau troed mynediad hollgynhwysol yn y Priory Groves, Aberhonddu, a chwblhau taith gerdded cylchol.

Roedd y daith gerdded gylchol hon yn cysylltu â llwybrau troed sefydledig sydd wedi'u lleoli ar dir gerllaw'r coetir, sy'n caniatáu mynediad i Gadeirlan Aberhonddu ac ystadau tai Pendre & Beechgrove yn uniongyrchol i mewn i goetir Priory Groves.





**Cyn –** Roedd y llwybr troed wrth lan yr afon wedi erydu yn ddrwg ac yn gul mewn mannau gyda chwympiadau serth o'r llwybr troed a oedd wedi'i godi i lawr i'r afon.



**Ar ôl –** Mae'r llwybr troed bellach yn 1200mm o led ac mae'r llwybr wedi'i symud o'r cwympiadau a'r llwybr troed a oedd yn ymdonnog bellach wedi'i lefelu er mwyn caniatáu mynediad haws i'r ardal hon o fewn Priory Groves